



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Crynodeb o ymatebion i Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau

## Cynnwys

<b>1. Ynghylch Cynllunio Rheoli Basn Afonydd</b> .....	3
1.1 Ynghylch yr ymgynghoriad.....	3
1.2 Trosolwg o'r ddogfen hon.....	4
<b>2. Trosolwg o'r Ymatebion</b> .....	5
2.1 Crynodeb o'r ymatebion .....	6
2.2 Crynodeb o ymatebion Ardaloedd Basn Afon .....	6
Ymatebion Ardal Basn Afon Dyfrdwy.....	6
Ymatebion Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru .....	7
<b>3. Problemau ac atebion i'r materion pwysig ynghylch dŵr yn Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy, Gorllewin Cymru a rhannau Cymru o Afon Hafren</b> .....	8
3.1 Crynodeb o'r Ymatebion i gwestiynau 1 a 2 o'r ymgynghoriad – Yr heriau mwyaf? .....	9
3.1.1 Crynodeb o'r materion a godwyd.....	9
Llygredd Gwasgaredig - gwledig a threfol.....	9
Llygredd o garthion a dŵr gwastraff.....	10
Addasiad Ffisegol.....	10
Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol ac Ardaloedd Gwarchoddedig .....	11
Pysgodfeydd a Hamdden .....	12
Newidiadau yn lefel a llif naturiol y dŵr .....	12
Cyfundrefn Llif Afon Dyfrdwy .....	13
Materion eraill a godwyd .....	13
3.2 Cwestiwn 3. Sut y dylid ymdrin â'r materion? .....	13
3.3 Cwestiwn 4. Gyda phwy y dylem weithio er mwyn cyflawni'r canlyniad amgylcheddol? .....	15
3.4 Cwestiwn 5 a 6. Sut mae'r materion pwysig mewn dalgylch yn effeithio ar yr amgylchedd a'r gymuned leol? Sut ydych chi'n meddwl y dylid ymdrin â'r heriau sy'n effeithio ar bob dalgylch ac ym mha drefn?.....	15
<b>4. Asesiad Amgylcheddol Strategol</b> .....	16
4.1 Cwestiwn 7. A ydych chi'n cytuno ein bod yn canolbwyntio ar yr effeithiau amgylcheddol allweddol?.....	16
4.2 Cwestiwn 8. A oes yna unrhyw wybodaeth arall y dylem ni ei hystyried fel rhan o'r asesiad? .....	17
<b>5. Camau Nesaf Cyfoeth Naturiol Cymru</b> .....	18
5.1 Heriau a Dewisiadau a Chynlluniau Rheoli Basn Afon wedi'u diweddarau .....	18
5.2 Asesiad Amgylcheddol Strategol.....	18
<b>6. Atodiadau</b> .....	20
6.1 Map o'r Ardaloedd Basn Afon yng Nghymru.....	20
6.2 Llinell amser ar gyfer cynllunio rheoli basn afon .....	21
6.3 Rhestr o ymatebwyr .....	22

## 1. Ynghylch Cynllunio Rheoli Basn Afonydd

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Awdurdod Cymwys ar gyfer gweithredu'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru. Mae gennym gyfrifoldeb dros lunio'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag amrediad eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae gan Gymru dair Ardal Basn Afon; Gorllewin Cymru sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, ac mae Basn Afonydd Hafren a Dyfrdwy yn drawsffiniol. Gellir gweld map yn dangos y tair Ardal Basn Afon yn Atodiad 6.1.

Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (yn awr Cyfoeth Naturiol Cymru), gan weithio ar y cyd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Cynlluniau Rheoli Basn Afon cyntaf. Amlinellodd y cynlluniau hyn beth fyddai'n cael ei wneud er mwyn gwarchod a gwella amgylchedd y dŵr hyd at 2015.

Mae'r Gyfarwydddeb a Deddfwriaeth y DU yn gofyn bod Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cael eu hadolygu o dro i dro a'u diweddarau pob chwe blynedd. Yn dilyn hynny, bydd cynlluniau wedi'u diweddarau yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yng Nghymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr yn gyfrifol am gymeradwyo Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru, tra bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain ar gynllun Afon Hafren. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i weithio gyda'i gilydd ar y ddau gynllun trawsffiniol (Dyfrdwy a Hafren) er mwyn sicrhau dull unedig tuag at faterion ac atebion trawsffiniol.

### 1.1 Ynghylch yr ymgynghoriad

Mae tri cham statudol sy'n cynnwys ymgynghoriadau ffurfiol yn ein tywys hyd at fis Rhagfyr 2015. Mae'r camau hyn wedi'u hamlinellu yn Atodiad 6.2. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf, 'Gweithio gyda'n Gilydd' i ben ym mis Rhagfyr 2012. Roedd yn gofyn am safbwyntiau ar sut y gallem ni i gyd weithio'n well i warchod a gwella amgylchedd y dŵr. Mae'r ddogfen ymateb ar gyfer Cymru a Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013, ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu sydd i'w cymryd yng Nghymru er mwyn gwella sut yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau eraill neu unigolion i gyflawni a gwarchod amgylchedd y dŵr.

Yr ymgynghoriad 'Heriau a Dewisiadau' ym mis Mehefin 2013 oedd yr ail ymgynghoriad cyhoeddus ac roeddem yn gofyn am safbwyntiau ar:

- Beth ydych chi'n ystyried yw'r heriau mwyaf sy'n wynebu dyfroedd Cymru?
- Y ffordd orau i ymdrin â'r materion hyn a beth ddylid ei wneud gyntaf.
- Gyda phwy y dylem ni weithio er mwyn cyflawni'r canlyniadau amgylcheddol.

Roeddem wedi cefnogi'r ymgynghoriad gyda'r ddogfen 'Dyfroedd Byw i Gymru'. Gosododd hyn grynodedb o'r materion mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr drwy Gymru. Yn ogystal, mae'n nodi atebion sydd angen eu gweithredu ar lefel leol a

strategol er mwyn eu datrys. Yn ogystal, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau penodol a oedd yn ymwneud â chwmpas yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Roeddem yn gofyn am safbwyntiau ar:

- A ydych chi'n cytuno ein bod yn canolbwyntio ar effeithiau amgylcheddol allweddol?
- A oes unrhyw wybodaeth arall y dylem ei hystyried fel rhan o'r asesiad?

Cychwynnodd ymgynghoriad 'Heriau a Dewisiadau' ar 22<sup>ain</sup> Mehefin 2013 a daeth i ben ar 22<sup>ain</sup> Rhagfyr 2013.

## 1.2 Trosolwg o'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

- Y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad.
- Gwybodaeth gryno ynghylch:
  - y nifer o ymatebion a dderbyniwyd.
  - y mathau o sefydliadau a ymatebodd.
  - ymatebion ar raddfa Ardal Basn Afon.
- Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori.
- Y camau nesaf a sut y byddem yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth adolygu Cynllunio Rheoli Basn Afon.
- Swyddogaeth Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Bydd y wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn hysbysu'r adolygiad o Gynlluniau Rheoli Basn Afon. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynlluniau hyn sydd wedi'u diweddarau ar gael o 22<sup>ain</sup> Medi 2014. Hwn fydd y trydydd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr ail gylich hwn o gynllunio basn afon. Gellir gweld crynodeb o linell amser am y gwaith ar draws y tair Ardal Basn Afon yn Atodiad 6.2.

## 2. Trosolwg o'r Ymatebion

Cyhoeddwyd dogfennau ymgynghorol Heriau a Dewisiadau ar gyfer Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru ar ein gwefan ac Afon Hafren ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd; roedd copïau caled ar gael yn ogystal wrth ofyn amdanyn nhw.

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad mewn cyfarfodydd a gweithdai, yn cynnwys cynhadledd flynyddol Partneriaeth Dŵr ac Iechyd, Sioe Frenhinol Cymru, Gweithdy Diwygio Tynnu Dŵr a digwyddiadau lleol fel Sioe Amaethyddol Sir Benfro a'r *Big Dee Day*.

Yn dilyn eich adborth o ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd, cynhaliwyd 15 o weithdai dalgylchoedd drwy Gymru. Bu'r rhain yn allweddol i'n hymgysylltiad parhaus ac maen nhw wedi helpu i ddarparu gwybodaeth leol hanfodol. Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio yng nghrynodebau'r dalgylchoedd ac maen nhw wedi'u cynnwys yng Nghynlluniau Rheoli Basn Afon sydd wedi'u diweddarau.

Yn ogystal, gwnaethom dynnu sylw at yr ymgynghoriad drwy 522 o sefydliadau ac unigolion drwy ddefnyddio e-bost a thrwy gyfryngau cymdeithasol yn trydar i dros 4,000 o ddilynwyr trydar. Yn ogystal, defnyddiwyd papurau lleol gyda chyfanswm o dros 50,000 o ddarllenwyr. Roedd hyn yn cynnwys y *Western Mail* a'r *Liverpool Daily Post*. Yn fewnol, gwnaethom hyrwyddo'r ymgynghoriad i oddeutu 2,000 o staff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy *Yr Wythnos*, ein cylchlythyr wythnosol mewnol.


Roeddem yn cael ein cefnogi gan ein paneli cyswllt. Roedden nhw'n cyfrannu at ddatblygu dogfen yr ymgynghoriad mewn cyfarfodydd paneli Ardaloedd Basn Afon ac yn hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy eu rhwydweithiau. Er enghraifft, gwnaeth Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru gynnwys erthygl newyddion yn *Farming Wales* sydd yn cael ei dderbyn gan 8,000 o ffermwyr a thirfeddianwyr drwy Gymru.

Drwy Gymru cafwyd ymatebion gan 50 o unigolion a 54 gwahanol fath o sefydliad i'r ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau. O'r rhain, roedd 13 ymateb ar lefel Gymru gyfan gyda'r gweddill ar raddfa Ardal Basn Afon. Darperir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad 6.3.

Mae copi o'r ymatebion wedi'i gynnwys yn y ddogfen 'Tystiolaeth Gefnogol – Ymatebion i'r Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau'. Mae hon ar gael ar ein gwefan neu os ydych yn dymuno cael copi wedi'i argraffu cysylltwch â Ceri Jones ar [ceri.jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ceri.jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) neu'n ysgrifenedig o'n cyfeiriad yng Nghaerdydd os gwelwch yn dda.

## 2.1 Crynodeb o'r ymatebion

*Ffigur 1 - Graff yn dangos cyfanswm y nifer o ymatebion (yn cynnwys y rhai ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) ar gyfer y cyfan o Afon Dyfrdwy, Gorllewin Cymru a rhan Cymru o Afon Hafren*




Nodwch: ar gyfer gwybodaeth ynghylch ymatebion am Ardal Basn Afon Hafren yn ei chyfanrwydd, gweler gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd os gwelwch yn dda.

## 2.2 Crynodeb o ymatebion Ardaloedd Basn Afon


### Ymatebion Ardal Basn Afon Dyfrdwy

*Ffigur 2 – Graff yn dangos manylion a'r nifer o grwpiau a sefydliadau a ymatebodd i ymgynghoriad Ardal Basn Afon Dyfrdwy (38 ymateb).*



### Ymatebion Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Figur 3 – Graff yn dangos manylion a'r nifer o grwpiau a sefydliadau a ymatebodd i ymgynghoriad Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (77 ymateb).



### 3. Problemau ac atebion i'r materion pwysig ynghylch dŵr yn Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy, Gorllewin Cymru a rhannau Cymru o Afon Hafren

Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod y Cynlluniau Rheoli Basn Afon sydd wedi'u diweddarau yn cynnwys y materion arwyddocaol perthnasol.

Amlinellwyd y materion pwysig canlynol yn nogfennau ymgynghorol Heriau a Dewisiadau:

**Dyfrdwy** – Addasiadau ffisegol; llygredd o garthion a dŵr gwastraff; llygredd o ardaloedd gwledig; llygredd o gloddfeydd a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.

**Gorllewin Cymru** - Addasiadau ffisegol; llygredd o garthion a dŵr gwastraff; llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth; llygredd o ardaloedd gwledig; llygredd o gloddfeydd a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.

**Hafren** - Addasiadau ffisegol; llygredd o garthion a dŵr gwastraff; llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth; newidiadau i lefel a llif naturiol dŵr; rhywogaethau anfrodorol goresgynnol a llygredd o ardaloedd gwledig.

Gwnaethom ofyn i chi roi sylwadau ar y cwestiynau canlynol:

**Cwestiwn 1** Beth ydych chi'n ei ystyried yw'r heriau mwyaf sy'n wynebu dyfroedd yn eich Ardal Basn Afon?

**Cwestiwn 2** A ydych chi'n cytuno â'n disgrifiad ni o sut y mae'r materion pwysig yn effeithio ar yr amgylchedd dŵr a'r gymuned leol? Nodwch pa fater(ion) y mae eich ymateb yn cyfeirio ato/atyn nhw a darparwch wybodaeth berthnasol er mwyn helpu i egluro eich ateb os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 3** Sut ydych chi'n meddwl y dylid ymdrin â'r materion hyn, a beth fydddech chi'n dewis ei wneud gyntaf? Nodwch pa fater(ion) y mae eich ymateb yn cyfeirio ato/atyn nhw. Ystyriwch unrhyw gyfyngiadau adnoddau os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 4** Gyda phwy y dylem ni weithio er mwyn cyflawni'r canlyniad amgylcheddol?

**Cwestiwn 5** Sut mae'r materion pwysig mewn dalgylch yn effeithio ar yr amgylchedd dŵr a'r gymuned leol? Nodwch pa ddalgylch(oedd) y mae eich ymateb yn cyfeirio ato/atyn nhw a darparwch wybodaeth berthnasol er mwyn helpu i egluro eich ateb.

**Cwestiwn 6** Sut ydych chi'n meddwl y dylid ymdrin â'r heriau sy'n effeithio ar bob dalgylch a beth a fydddech chi'n ei ddewis i wneud gyntaf? Nodwch pa ddalgylch(oedd) y mae eich ymateb yn cyfeirio ato/atyn nhw. Ystyriwch unrhyw gyfyngiadau adnoddau os gwelwch yn dda.



### 3.1 Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 1 a 2 o'r ymgynghoriadau - yr heriau mwyaf?

Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno ein bod wedi nodi'r prif faterion ym mhob un o'r Ardaloedd Basn Afon. Roedd hyn yn cynnwys sut yr oeddem wedi disgrifio'r materion pwysig a oedd yn effeithio ar yr amgylchedd dŵr a'r gymuned leol fel ei gilydd.

Roedd pum ymatebwr wedi ystyried y dylid fod wedi cynnwys yn ogystal rheoli llif yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy fel mater pwysig oherwydd y potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar yr ecoleg.

Roedd sylwadau cyffredinol eraill a godwyd yn cynnwys:

- Ar gyfer yr ychydig achosion nad oeddem ni'n gallu nodi'r union faterion a'r hyn sydd angen ei wneud, roedd ymatebwyr yn ei darganfod yn anodd rhoi sylwadau.
- Gallai'r data a'r wybodaeth fod wedi'u cyflwyno'n well er mwyn dangos effaith, graddfa a'r sector a oedd yn cael eu heffeithio.
- Ni chrybwyllwyd yn ddigonol effaith plaladdwyr mewn dŵr a'r effeithiau cysylltiedig â rhai gweithgareddau hamdden ac ysglyfaethu gan adar.
- Mae angen i wahanu ymarfer coedwigaeth ddiwydiannol oddi wrth yr effeithiau cadarnhaol a enillwyd wrth blannu coed wedi'i dargedu fel y gwaith ar leiniau cysgodi ar dir amaethyddol.
- Nid oedd digon o bwyslais yn cael ei roi i swyddogaeth defnyddio dulliau amgylcheddol fel technegau draenio cynaliadwy wrth gynnal rheoli dŵr.
- Gall ffensio dyfrffyrdd gael effaith negyddol yn ogystal drwy greu lleiniau nad ydyn nhw'n cael eu pori mwyach. Mae'r effaith hon angen cael ei chydabod.

#### 3.1.1 Crynodeb o'r materion a godwyd

Er mwyn osgoi ailadrodd, rydym wedi grwpio eich ymatebion i feysydd pwnc, a amlinellwyd gan amlder yr ymateb a dderbyniwyd.

##### Llygredd Gwasgaredig - gwledig a threfol

(Derbyniwyd sylwadau gan fusnesau, cyrff anllywodraethol amgylcheddol (CAa), amaethyddiaeth, coedwigaeth, unigolion, pysgodfeydd, diwydiant dŵr, mordwyo ac awdurdodau lleol).

Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod llygredd gwasgaredig yn broblem fawr drwy Gymru, yn arbennig felly, llygryddion microbaidd sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi a physgodfeydd cregyn. Teimlwyd yn gyffredinol bod hyn yn dod o ffynonellau fel amaethyddiaeth (gwaddodi drwy botsio ac erydiad glannau'r afon, ac ewtroffigedd o faetholion), coedwigaeth (asideiddio, defnydd plaladdwyr, polisi rheoli) ac ardaloedd trefol (camgysylltiadau, dŵr ffo o ffyrdd, gwaredu gwastraff, graeanu ac adeiladu). Tynnwyd

sylw at faterion llygredd o danciau septig a charthbyllau yn ogystal. Teimlwyd bod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi rheoliadau. Yn ogystal, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i sut y gellir integreiddio agweddau rheoli dŵr yn Glastir i Gynlluniau Rheoli Basn Afon. Gellir cyflawni hyn, er enghraifft, drwy hyrwyddo plannu coed wedi'i dargedu mewn parthau ar lannau'r afonydd ac ar lechweddau serth bregus drwy drawsgydymffurfio, cefnogi amgylchedd amaethyddol a chynlluniau grant coedwigaeth.

Yn ogystal, tynnwyd sylw at y digwyddiadau glawiad eithafol sy'n cael eu rhagweld yn deillio o'n hinsawdd sy'n newid a fydd yn effeithio beth y gellir ei gyflawni yn rhesymol; gyda dŵr ffo cynyddol yn achosi mwy o drwytholchi o'r pridd ac erydiad. Gallai'r effaith o dwf yn y boblogaeth a newid yn yr hinsawdd weld diogelwch bwyd yn dod yn flaenoriaeth uwch gydag effeithiau canlyniadol ar gyfer defnydd tir. Bydd plannu coed er mwyn cyflawni cadw dŵr a chynlluniau lleihau llifogydd yn yr ucheldiroedd yn digwydd yn unig os bydd newidiadau yn y polisiau presennol ar ddefnydd tir. Crybwyllodd eraill bod angen gwell gorfodaeth a rheoleiddio tynnach ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a'r taliadau cefnogi a wnaed i reolwyr tir.

Mae angen parhau i warchod Cyflenwadau Dŵr Preifat er mwyn cynnal iechyd y cyhoedd mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr wedi mynegi eu pryder dros y diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gydymffurfedd cyflenwadau dŵr preifat. Yn ogystal, codwyd yr angen i ymdrin ag amrediad o lygryddion posibl yn y tarddiad yn hytrach na'r pwynt triniaeth. Mewn perthynas â hyn, defnyddiwyd metaldehyd o belenni gwllithod fel enghraifft.

### **Llygredd o garthion a dŵr gwastraff**

(Derbyniwyd sylwadau gan fusnesau, amaethyddiaeth, cyrff anllywodraethol amgylcheddol (CAa), coedwigaeth, unigolion, diwydiant dŵr a physgodfeydd).

Roedd sawl sefydliad yn cytuno bod llygredd o ddŵr gwastraff yn fater pwysig drwy Gymru. Yn arbennig, lle mae ffosffadau o ollyngiadau carthion ac all-lifau carthion cyfun yn cael eu rhyddhau i Gorff Dŵr sydd wedi'i Addasu'n Sylweddol, mae effaith gorfaethu yn fwy amlwg.

Yn ogystal, gwnaed sylw ynghylch yr angen i ymdrin â mewnbynnau yn y tarddiad a pheidio â dibynnu ar drin carthion i ymdrin â materion fel ffosffad o lanedyddion. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu fod triniaeth briodol i dynnu sylweddau â blaenoriaeth, yn arbennig felly, cadmiwm a mercwri, o ollyngiadau dŵr gwastraff yn annhebygol o fod ar gael erbyn y dyddiad targed o 2020.

### **Addasiad Ffisegol**

(Derbyniwyd sylwadau gan amaethyddiaeth, cyrff anllywodraethol (CAa), coedwigaeth, mordwyo, pysgodfeydd, busnes, awdurdodau lleol, hamdden ac unigolion).

Roedd llawer wedi nodi eu bod yn gweld cynlluniau pŵer trydan dŵr, yn arbennig felly ar brif afonydd ac mewn ardaloedd gwarchoddedig, fel mater pwysig. Gallai'r rhain fod yn rhwystr i bysgod fudo ac yn effeithio ar lif y dŵr, a'r planhigion a'r anifeiliaid i lawr yr afon. Roedd cynlluniau llai yn cael eu gweld fel rhai aneffeithlon a gwastraffus. Roedd y sylwadau yn awgrymu gwrthdaro rhwng targedau'r Llywodraeth ar gyfer ynni gwyrdd, lles y pysgod a'r effaith ar bysgodfeydd.

Roedd llawer yn gweld llifogydd fel prif broblem. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gellid osgoi 90% o lifogydd drwy reoli'r dalgyllch yn well. Gallai rheoli risg llifogydd yn well leihau costau cysylltiedig eraill; er enghraifft, cynnydd mewn taliadau yswiriant yn dilyn digwyddiadau mawr. Canfyddir y bu diffyg rheoli ar gyfer caniatadau draenio llifogydd ers i'r swyddogaeth hon gael ei throsglwyddo i'r awdurdodau lleol. Roedd pryder y bydd tynnu strwythurau, creu ystumiau afon, a diffyg cynnal a chadw i gyd yn creu risg pellach ar gyfer llifogydd yn y dyfodol.

Croesawodd rhai'r datganiad bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at ddatblygu "dull cyfannol yn seiliedig ar yr ecosystem tuag at reoli risg llifogydd ac mae'n dymuno lleihau risg llifogydd drwy ddefnyddio ymyriadau a fydd o fudd i gynefinoedd". Fodd bynnag, teimlwyd, yn seiliedig ar brofiad diweddar, er mwyn cyflawni'r nod hon bydd angen newid mawr yn y ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin â risg llifogydd, yn hytrach nag adolygu ei ddull. Mae graddfa addasiadau sianel afonydd yn y gorffennol yn golygu y bydd yn anodd newid ein dull yn sylfaenol, tra ar yr un pryd yn cynnal y lefel o warchodaeth a ddarparwyd gan y cynllun gwreiddiol. Darparwyd enghraifft lle'r oedd angen cynnal lefelau dŵr ar gyfer mordwyo, ond roedd hyn yn groes i risg llifogydd. Mae'r adran hon yn codi'r disgwyliad afrealistig y bydd/gall/dylai'r holl addasiadau gael eu gorchfygu a bydd yr holl bysgod yn cael rhyddid i symud i bobman.

Yn ogystal, nodwyd pryder dros ddiffyg carthu mewn afonydd ac roedd hyn yn cael effaith negyddol ar dir fferm a bywyd gwylt. Awgrymodd un ymateb mai hyn oedd yn gyfrifol am y gost gynyddol o ymdrin â llifogydd a bod angen adolygiad radical ar gyfer cynnal a chadw yn yr hirdymor.

### **Rhywogaethau anfrodorol goresgynol ac Ardaloedd Gwarchoddedig**

(Derbyniwyd sylwadau gan gyrff anlywodraethol amgylcheddol (CAa), diwydiant dŵr, awdurdodau lleol, amaethyddiaeth, coedwigaeth, unigolion, pysgodfeydd, hamdden a mordwyo).

Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno fod rhywogaethau anfrodorol goresgynol (RhAG) yn broblem fawr drwy Ardaloedd Basn Afon yng Nghymru. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos rhywogaethau fel y Ffromlys Chwarennog a Chlymog Japan. Mae rhywogaethau brodorol yn methu â chystadlu gyda'r rhain ac maen nhw'n cynyddu'r risg o erydiad ar lannau'r afon. Roedd teimlad cyffredinol bod targedau ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig yn siomedig a dylai fod mwy o warchodaeth ar gyfer bywyd gwylt.

### **Pysgodfeydd a Hamdden**

(Derbyniwyd sylwadau gan gyrrff anllwyodraethol amgylcheddol (CAa), unigolion, pysgodfeydd, mordwyo a hamdden).

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod y sylw a roddwyd i faterion pysgodfeydd yn un minimol yn y ddogfen, yn arbennig felly, gan mai niferoedd isel y pysgod yw'r achos mwyaf cyffredin o fethu â chyflawni Statws Ecolegol Da. Yn ychwanegol, mae statws stociau pysgod mudol yng Nghymru yn parhau i ostwng. Gwnaethon nhw adrodd bod 50% o afonydd eog yn y categori 'Mewn Perygl' a dyfynnwyd tystiolaeth o ostyngiad o 60% mewn brithyll môr yn y blynyddoedd diweddar. Yn amlwg, bydd ymdrin â'r materion amrywiol a amlinellwyd yn y ddogfen yn helpu i adfer stociau, ond gellir defnyddio offer rheoli pysgodfeydd yn ogystal i gynorthwyo adferiad. Yn ogystal, teimlwyd gallai gwelliannau cost isel ar raddfa leol sydd wedi'u profi yn y cynefinoedd, fel cyflwyno graean, wella'r gallu i gludo pysgod yn sylweddol a chyflawni buddion ehangach ychwanegol i'r ecosystem.

Adroddwyd bod y lefel o ecsbloetio yn fater arbennig mewn rhai dalgylchoedd. Roedd rhai yn teimlo bod y polisi stocio pysgod yn annigonol a dylai Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu ei bolisi. Yn ogystal, gwnaed sylw y bu colled ddramatig o leisiad a gwyniad haf o ganlyniad i ysglyfaethu gan adar.

Nododd eraill bod y dull a fabwysiadwyd ar gyfer gwarchod llyswennod wedi profi'n fwy effeithiol na'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer pysgod. Mae gwaith y Grŵp Llyswennod Cynaliadwy ar fapio'r cyfleoedd gorau wedi cael ei gyfeirio ato fel defnyddiol iawn wrth ganolbwyntio ar ymdrechion. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y safonau ar gyfer ysgolion pysgod yn ormodol yn gyffredinol, a chredwyd mai dull gwell fyddai canolbwyntio ar nifer fwy o ddulliau amgen rhatach.

Er bod rhai wedi hyrwyddo mynediad hamdden ehangach i ddŵr, roedd eraill yn dymuno cyfyngiadau yn seiliedig ar yr ymyrraeth y mae mynediad yn ei gael ar bysgod yn silio. Yn ogystal, roedd rhai ymgynghoreion yn teimlo y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i gadw heddwch ac unigedd. Ar hyn o bryd, mae hyn mewn perygl oherwydd y galw am gynnydd mewn gweithgareddau hamdden seiliedig ar ddŵr. Cydnabuwyd yr ymddengys bod diffyg goddefgarwch rhwng grwpiau defnyddwyr.

### **Newidiadau mewn lefel a llif naturiol y dŵr**

(Derbyniwyd sylwadau gan bysgodfeydd, corff anllwyodraethol amgylcheddol (CAa), hamdden, unigolion, amaethyddiaeth a mordwyo).

Gwelwyd rheoleiddio dŵr a rheoli tynnu dŵr fel mater allweddol gan rai ymatebwyr. Teimlwyd bod adeiladu cronfeydd mewn blaenddyfroedd mewn dalgylch yn ôl pob tebyg wedi atal unrhyw lif naturiol mewn afonydd i lawr yr afon. Mae hyn wedi'i gyfuno gyda thynnu dŵr, y galw parhaol am gyflenwad cynyddol o ddŵr a hafau sychach wedi cael effaith niweidiol ar y llif mewn afonydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod trwyddedau tynnu dŵr presennol yn rhy hael ac os ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n llawn, gallan nhw niweidio'r amgylchedd ar adeg pan mae

llyf yr afon yn isel. Yn ogystal, teimlwyd bod rheoleiddio tynnu dŵr yn aneffeithiol wrth gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru wneud mwy o fewn y rheoliadau presennol er mwyn cyflawni tynnu dŵr yn gynaliadwy. Byddai angen cymryd symiau trwyddedig na chafodd eu defnyddio yn ôl ac ymdrin ag effeithiau "cyfunol" tynnu dŵr ar raddfa fechan mewn sawl man.

Teimlwyd y gellid gwneud mwy i leihau'r galw am ddŵr drwy'r holl sectorau. Byddai hyn angen gwell effeithlonrwydd/lleihau colledion a gwella ailgylchu. Gallai gosod systemau arbed dŵr dderbyn anogaeth gan y Llywodraeth er mwyn cynyddu'r nifer sy'n eu cyfranogi. Yn yr un modd, dylid canolbwyntio mwy ar wella cyflenwadau drwy storio dŵr pan mae digon ohono. Gellid cyflawni hyn drwy gronfeydd newydd, storio ger glannau afonydd, storio ar ffermydd a chynaeafu dŵr glaw mewn ardaloedd trefol.

### **Cyfundrefn Llif Afon Dyfrdwy**

(Derbyniwyd sylwadau gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol (CAa), pysgodfeydd, coedwigaeth a diwydiant dŵr).

Derbyniwyd pump ymateb lle teimlwyd y dylid ystyried cyfundrefn llif rheoledig Afon Dyfrdwy fel mater pwysig oherwydd bod ganddi'r potensial i effeithio ar yr ecoleg yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy.

### **Materion Eraill a Godwyd**

Crybwyllodd nifer bod tystiolaeth a gwelliannau mewn dyfroedd arfordirol ac aberol ar ei hôl hi o'i gymharu â dyfroedd croyw. Mae angen mwy o eglurder yn arbennig ar safonau pysgod cregyn. Byddai cyfyngiadau ariannol ar gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael effaith ar eu gallu i ymdrin â materion, yn arbennig felly, unwaith na ystyrir amcanion dirywiad ac ardaloedd gwarchoddedig. Yn ogystal, crybwyllodd rhai bod gwaredu ysbwriel yn fater pwysig. Gwelwyd bod newid yn yr hinsawdd sy'n arwain at dymheredd dŵr uwch a glawriad trymach yn broblem i rai ymatebwyr. Teimlwyd bod hyn yn achosi effeithiau negyddol ar gyrff dŵr drwy gynnydd mewn llygryddion a'u heffaith.

## **3.2 Cwestiwn 3. Sut y dylid ymdrin â'r materion?**

Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi cydnabod yr angen am ddull amlasiantaethol. Dylid cyflawni pob mecanwaith mewn ffordd integredig; felly mae angen edrych ar y cyd, er enghraifft, ar y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a Chynlluniau Perygl Llifogydd. Yn ogystal, cydnabuwyd ein bod angen gweithredu mesurau ar raddfa'r dalgylch. Byddai hyn yn sicrhau cyfranogiad lleol, gweithio mewn partneriaeth a gwella cyfleoedd ar gyfer cyllid, y sail tystiolaeth a'r canlyniadau. Ar y cyfan, roedd rhai yn teimlo bod angen newid diwylliannol a dylai mesurau anelu at newid ein hymddygiad yn yr hirdymor.

Bu sôn am yr angen i godi mwy o ymwybyddiaeth ar effaith llygredd gwledig. Gellid cyflawni hyn drwy gynllun cyfathrebu rheoli tiroedd gwledig ac addysg mewn ysgolion ac i fusnesau/gymunedau. Fodd bynnag, roedd eraill yn dymuno rhoi mwy o bwyslais ar

annog gwell atebion drwy reoliadau trwyddedu neu fwy o reolaeth drwy ymestyn Parthau Perygl Nitradau.

Roedd llawer wedi nodi bod angen gwella amddiffynfeydd llifogydd a thynnu rhwystrau a achoswyd gan goed. Dylid adolygu'r polisi o beidio â charthu a sefydlu rhaglen gynnal a chadw 5 mlynedd. Yn ogystal, crybwyllwyd y dylid dychwelyd afonydd o dan reolaeth byrddau draenio lleol.

Roedd rhai ymgynghoreion yn teimlo bod angen gwneud mwy ynghylch llif a thynnu dŵr. Yn arbennig, dylid adolygu'r dystiolaeth ar effaith rheoli llif a llenwi unrhyw fylchau yn ein gwybodaeth. Cafodd effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol i gyflawni gwelliannau ei gwestiynu. Teimlwyd mewn llawer o'r achosion ei bod angen bod yn symlach, yn fwy hyblyg a chost-ffeithiol i'w gweinyddu.

Roedd hanner yr ymatebion yn gysylltiedig â chynlluniau Pŵer Trydan Dŵr. Credwyd y dylid dileu cymorthdaliadau a gwrthod trwyddedau tynnu dŵr ar y cynlluniau hynny sy'n effeithio ar y prif afonydd, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. Roedd angen y dull hwn er mwyn sicrhau nad oedd defnyddiau presennol yn cael eu peryglu a bod gan bawb fynediad a rennir a'r defnydd o ddyfrffyrdd.

Roedd ymatebwyr yn ystyried bod y canlynol yn bwysig:

- Dylid rhoi mwy o gyngor a chanllawiau i'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth.
- Dylid symud newid yn yr hinsawdd, llif ac addasiadau ffisegol i fyny'r agenda.
- Angen cynnwys gweithfeydd dŵr gwastraff preifat, tanciau septig a diwydiant er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud eu rhan mewn ymdrin â'r problemau.
- Tynnu pob gored nad yw'n weithredol e.e. Erbistog.
- Glanhau afonydd a ffosydd er mwyn lleihau costau a llifogydd.
- Cael tîm o bobl wedi ymroi i bob dalgyrch a all gynghori a gweithio gyda thirfeddianwyr.

### **Sylwadau Ychwanegol**

Lle na chafodd cwestiynau'r ymgynghoriad eu hateb yn benodol, gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau cyffredinol i'w cynnwys.

- Dylid gweithredu'r egwyddor y llygrwr sy'n talu fel bod pob sector yn gyfrifol am yr effaith y maen nhw'n ei achosi.
- Roedd angen tystiolaeth gadarn er mwyn darparu gwybodaeth yn gywir ar gyfer y polisi.
- Dylai Heriau a Dewisiadau fod wedi cynnwys gwersi a ddysgwyd o'r cylch 1<sup>af</sup>. Dylai gynnwys pa fesurau a gafodd eu gweithredu a pha mor effeithiol y maen nhw wedi bod?
- Dylid fod wedi ceisio cael safbwyntiau ynghylch y lefel o uchelgais i gyflawni Statws Ecolegol Da yn yr 2<sup>a</sup>il gylch. Bydd yr hinsawdd economaidd yn dylanwadu ar y dewisiadau a beth sydd yn gyraeddadwy ac yn fforddiadwy erbyn 2021 – mae angen dadl gyhoeddus ehangach ar hyn a'r defnydd o amcanion amgen.

### 3.3 Cwestiwn 4 Gyda phwy y dylem weithio er mwyn cyflawni'r canlyniad amgylcheddol?

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn awgrymu ein bod yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y diwydiant dŵr, sefydliadau gwirfoddol, Cadwch Gymru'n Daclus, ffermwyr, y sector coedwigaeth, ymddiriedolaethau afonydd a'r Awdurdod Glo.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cynghorau cymuned, genweirwyr, partneriaeth biosffer Dyfi, preswylwyr lleol, cerddwyr, tirseiddianwyr, sector busnes, ysgolion, cymdeithas atal llifogydd, gwneuthurwyr, siopau'r crefftwr cartref a defnyddwyr hamdden.

### 3.4 Cwestiwn 5 a 6; Sut mae'r materion pwysig mewn dalgyrch yn effeithio ar yr amgylchedd a'r gymuned leol? Sut ydych chi'n meddwl y dylid ymdrin â'r heriau sy'n effeithio ar bob dalgyrch ac ym mha drefn?

#### **Materion o bwysigrwydd yn y Ddyfrdwy oedd:**

- Rheoli llif ar Afon Dyfrdwy.
- Llygredd yn West Kirby sy'n effeithio ar ddefnydd hamdden.
- Llifogydd a diffyg carthu yn Balderton Brook, Afon Alyn, a rhan gamlasedig o Afon Dyfrdwy.
- Llygredd yn Afon Dyfrdwy a chamlas Llangollen sy'n effeithio ar hamdden.
- Metaldehyd yn Afon Dyfrdwy.
- Llifogydd a rhwystrau coed rheolaidd yn ardal Holt/Farndon.

#### **Materion o bwysigrwydd yng Ngorllewin Cymru oedd:**

- Addasiadau ffisegol yn Afonydd Tawe, Afan, Nedd, Ogwr a Westfield Pill yn effeithio ar symudiad pysgod.
- Diffyg cynnal a chadw ffensys yng Nghleddau Ddu, yn arbennig felly, ffensys newydd.
- Gordyfiant algae yng nghronfa ddŵr Llys y Frân sy'n effeithio'n niweidiol ar bysgod, dŵr yfed a thwristiaeth.
- Llygredd amaethyddol gwasgaredig yn nalgyrch Cleddau Wen a Chleddau Ddu sy'n achosi algae glaswyrdd.
- Y cynllun Pŵer Trydan Dŵr yn nalgyrch Conwy.
- Llygredd o ardaloedd trefol, dŵr gwastraff a ffynonellau diwydiannol yn Nalgyrchchoedd Taf a Tawe.
- Pwysau ar gyflenwadau dŵr yn Sir Benfro oherwydd hafau cynhesach.

#### **Materion o bwysigrwydd yn rhannau Cymru o'r Hafren oedd:**

- Llygredd o ardaloedd trefol, dŵr gwastraff a diwydiant yn Nalgyrch Hafren Isaf.
- Gormodedd o ffosffad yn Nalgyrch Afon Gwy yn dod o ffermydd dofednod.

## 4. Aseiad Amgylcheddol Strategol

Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymatebion sy'n gysylltiedig â chwmpas yr Aseiad Amgylcheddol Strategol. Gofynnwyd i chi roi sylwadau ar y cwestiynau canlynol:

**Cwestiwn 7** A ydych chi'n cytuno ein bod yn canolbwyntio ar yr effeithiau amgylcheddol allweddol?

**Cwestiwn 8** A oes unrhyw wybodaeth arall y dylem ni ei hystyried fel rhan o'r aseiad?

### 4.1 Cwestiwn 7. A ydych chi'n cytuno ein bod yn canolbwyntio ar yr effeithiau amgylcheddol allweddol?

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo ein bod yn canolbwyntio ar y materion amgylcheddol allweddol yn y ddogfen gwmpasu. Roedd rhai materion a godwyd yn ystyriaethau perthnasol i'r cynllun ei hun, yn hytrach na'r Aseiad Amgylcheddol Strategol. Cyfeiriwyd at y rhain uchod a byddan nhw'n cael eu hystyried wrth gynhyrchu'r cynllun. Nodwyd nifer o agweddau a fydd yn cael eu hystyried yn yr Aseiad Amgylcheddol Strategol:

- Mae angen i'r Aseiad Amgylcheddol Strategol gael dyfnder priodol a dadansoddiad cymesur o'r materion.
- Yr effaith ar iechyd a hamdden, ac yn arbennig sut y gallai'r cynllun effeithio ar gyfleoedd i bobl gael mynediad at afonydd, llynnoedd, dyfroedd arfordirol a throsiannol a'u mwynhau.
- Dylai buddion ymarferion rheoli tir yn gynaliadwy, plannu coed, systemau draenio cynaliadwy a seilwaith gwyrdd arall ar fioamrywiaeth, hamdden, tirwedd a thwristiaeth gael eu cydnabod.
- Effeithiau cadarnhaol a negyddol o reoli risg llifogydd.
- Effaith rheoli llif a thynnu dŵr o fewn basnau afonydd a rhwng basnau afonydd yng nghyd-destun addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Yr effaith ar ddyfroedd arfordirol a throsiannol a'u defnydd gan bobl (e.e. y diwydiant pysgod cregyn).
- Yr effaith ar newid yn yr hinsawdd drwy allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n codi o gamau gweithredu Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd, fel triniaeth ychwanegol ar gyfer dŵr gwastraff a dal a storio carbon drwy newidiadau mewn rheoli tir.
- Effeithiau rheoli defnydd tir.
- Cydnabod gwerth hanesyddol rhai strwythurau sy'n gysylltiedig â chyrrff dŵr.

Mae'n ofyniad o'r Aseiad Amgylcheddol Strategol ein bod yn ystyried y materion a godwyd. Y rhai a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn oedd:



- **Roedd rhai ymgynghoreion eisiau i ni ystyried yr effeithiau amgylcheddol yn erbyn anghenion cymdeithas, yr economi a thwf.** Rydym yn ystyried bod hyn ymhlyg yn y dull tuag at yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae hyn yn cynnwys iechyd dynol a phoblogaeth fel 'derbynyddion' amgylcheddol ac mae'r rhain yn ymgorffori ffactorau economaidd. Nid yw'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn blaenoriaethu nac yn pwysoli derbynyddion amgylcheddol, ond mae'n eu nodi er mwyn darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n penderfynu a'r cynllun ei hun.
- **Roedd sylwadau bod angen mwy o sylw i bysgodfeydd.** Rydym yn ystyried na fydd hyn yn angenrheidiol gan fod mesurau i wella statws ecolegol cyrff dŵr yn cael eu hystyried yn y cynllun ei hun.
- **Roedd gofyn am ystyried effeithiau pŵer trydan dŵr ar yr amgylchedd dŵr.** Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ymdrin â'r mesurau arfaethedig o dan y Cynllun Rheoli Basn Afon yn unig. Byddai unrhyw orsaf bŵer trydan dŵr yn cael ei hystyried ar sail prosiect i brosiect. Mae holl gynlluniau o'r fath yn cael eu llywodraethu gan anghenion trwydded caeth.

**Roedd un ymatebwr yn anghytuno gyda gadael ansawdd aer allan o'r asesiad.**

Rydym yn ystyried, tra ei bod yn debygol y bydd rhai buddion ansawdd aer o ganlyniad i greu cynefin, mae'n anodd meintoli a darganfod yr arwyddocâd; felly rydym yn amddiffyn ein penderfyniad i adael ansawdd aer allan.

- **Holodd un ymatebwr am faes astudiaeth y cynlluniau gan eu bod yn croesi rhai o safleoedd Natura 2000.** Bu ymgynghoriad ar ffiniau'r cynllun yn 2003 ac maen nhw'n ffiniau statudol wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Fel y cyfryw, byddai eu newid yn fenter sylweddol ac nid yw yn un sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd.

#### **4.2 Cwestiwn 8. A oes yna unrhyw wybodaeth arall y dylem ni ei hystyried fel rhan o'r asesiad?**

Tynnwyd sylw at rai cynlluniau a pholisïau ychwanegol i ni eu hystyried yn y broses Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r rhain wedi cynnwys sefydlu cyswllt rhwng dogfennau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Rheoli Perygl Llifogydd. Byddwn yn dilyn y gwaith hwn lle mae'n ychwanegu gwerth at y broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.

## 5. Camau Nesaf Cyfoeth Naturiol Cymru

### 5.1 Heriau a Dewisiadau a Chynlluniau Basn Afon wedi'u diweddarau

Mae'n galonogol i wybod bod yr adborth a dderbyniwyd i raddau helaeth yn cefnogi ein sail tystiolaeth presennol (gwybodaeth am y Rhesymau dros Fethiant). Defnyddiwyd hyn i adnabod y materion arwyddocaol yn yr ymgynghoriad. Bydd y sail tystiolaeth hwn, ynghyd â'r materion a'r atebion a roddwyd gerbron yn yr ymgynghoriad hwn, yn allweddol er mwyn diweddarau Cynlluniau Rheoli Basn Afon.

Ein cam nesaf yw adolygu hyn yn fanwl gyda'n cydweithwyr a'n partneriaid rhwng Ebrill 2014 a Gorffennaf 2014. Byddwn yn gwneud hyn mewn perthynas ag allbynnau'r 15 gweithdy dalgylch a gynhaliwyd drwy Gymru rhwng Rhagfyr 2013 a Mawrth 2014. Bydd yr allbynnau cyfunol yn bwydo i'r Cynllun Rheoli Basn Afon a ddiweddarwyd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'n glir yn y Cynlluniau beth rydym ni yn ei gredu yw'r atebion sydd eu hangen. Lle codwyd materion lleol penodol, mae'r rhain wedi cael eu pasio i swyddogion lleol Cyfoeth Naturiol Cymru i'w hystyried ac i'w gweithredu lle bo'r angen.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid allanol ac yn ceisio cynnwys sectorau ychwanegol/partneriaid lle bo'n addas.

Yr ymgynghoriad ffurfiol nesaf fydd yr ymgynghoriadau drafft ar gyfer y Cynllun Rheoli Basn Afon a ddiweddarwyd (Medi 2014 i Chwefror 2015). Bydd y rhain yn chwilio am eich safbwyntiau ar y Cynlluniau drafft ac yn ystyried sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wella'r amgylchedd dŵr hyd at 2021 a thu hwnt.

### 5.2 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Rydym yn cydnabod na all gweithredu'r mesurau arwain at y newid a fwriadwyd yn unig, ond gall yn ogystal gyflawni newidiadau anfwriadol i agweddau eraill o'r amgylchedd. Gall y newidiadau hyn fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, tymor byr neu dymor hirach a gallan nhw ddigwydd ar raddfeydd gwahanol. Swyddogaeth yr Asesiad Amgylcheddol Strategol fydd penderfynu beth yw effeithiau amgylcheddol y newidiadau hyn a pha gamau gweithredu fydd eu hangen er mwyn ymdrin â nhw. Tra bydd y newid i'r amgylchedd yn cael ei fesur ar lefel y dalgylch, bydd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn penderfynu arwyddocâd cyfunol y newidiadau hyn ac yn penderfynu ar yr effeithiau pwysig ar lefel Ardal Basn Afon.

Bydd pob cynllun yn cynnwys cannoedd o fesurau. Wrth wneud yr asesiad, byddwn angen gwneud rhai rhagdybiaethau ynghylch sut mae'r mesurau'n cael eu gweithredu a sut i gyfuno effeithiau sylweddol gyda'i gilydd. Bydd rhan o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r broses gwneud cynlluniau yn ystyried ffyrdd amgen o weithredu'r cynllun.

Byddwn yn edrych ar ffyrdd amgen 'strategol', yn cynnwys peidio â gweithredu'r cynllun. Yn ogystal, byddwn yn archwilio mesurau amgen a'u buddion a'u costau cysylltiedig.

Bydd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn helpu i benderfynu pa agweddau o'r amgylchedd sy'n fwyaf tebygol i newid, a manylu ar sut y bydd y newidiadau hyn yn edrych. Lle mae effeithiau sylweddol yn cael eu rhagweld, bydd y rhain yn cael eu nodi'n glir a chynigir camau gweithredu er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn, gan gynnwys ystyried ffyrdd amgen. Bydd y lliniaru hwn yn cael ei ymgorffori fel camau gweithredu yn y cynlluniau drafft.

Byddwn yn canolbwyntio ar effeithiau sylweddol tebygol sy'n codi o'r cynlluniau drafft, yn arbennig felly, y rhai sydd ar gyfer y tymor hirach ac sy'n effeithio ar agweddau gwerthfawr yr amgylchedd. Bydd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei ddogfennu mewn Adroddiad Amgylcheddol ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynlluniau drafft ym Medi 2014.


Er mwyn darganfod sut y gallwch chi gymryd rhan, neu er mwyn cael mwy o wybodaeth ar yr ymgynghoriadau, ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Byddwn yn diweddarau ein tudalen we fel mae pob ymgynghoriad yn cychwyn a phan fydd wedi dod i ben. Cyhoeddir dogfen ymateb bellach ym Mehefin 2015 yn dilyn ymgynghoriad yr hydref hwn i lywio'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon wedi'u diweddarau.

Os ydych yn teimlo ein bod wedi anghofio rhywbeth yn y ddogfen ymateb hon, byddem yn hoffi clywed oddi wrthy. Cysylltwch â [Ceri.Jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Ceri.Jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) neu drwy ysgrifennu at ein cyfeiriad yng Nghaerdydd os gwelwch yn dda.

## 6. Atodiadau

### 6.1 Map o'r Ardaloedd Basn Afon yng Nghymru



## 6.2 Llinell amser ar gyfer cynllunio rheoli basn afon

Cam	Dyddiad a Hyd	Pwrpas?
<b>Gweithio gyda'n gilydd</b> – Ymgynghoriad statudol	Ymgynghoriad : Mehefin 2012 i Ragfyr 2012  6 Mis o Hyd  Cyhoeddwyd y ddogfen ymatebion ym mis Mawrth 2013	<b>'Sut y dylem ni i gyd weithio gyda'n gilydd i ddiweddarau'r cynlluniau rheoli basn afon?'</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofyn sut rydych chi'n dymuno bod yn gysylltiedig.</li> <li>Esbonio'r camau allweddol ym mhroses gynllunio rheoli basn afon ar gyfer cylch 2.</li> <li>Sefydlu rhwydwaith o gysylltiadau ar gyfer cynllunio cylch 2.</li> </ul>
<b>Heriau a Dewisiadau</b> – Ymgynghoriad statudol  Materion Pwysig ynghylch Rheoli Dŵr	Ymgynghoriad Mehefin 2013 i Ragfyr 2013  6 Mis o Hyd  Cyhoeddir y ddogfen ymatebion ym mis Mai 2014	<b>'Beth yw'r materion pwysig ynghylch yr amgylchedd dŵr a beth y gellir ei wneud yn eu cylch?'</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella a rhannu tystiolaeth a gasglwyd drwy gylch 1<sup>af</sup> cynllunio basn afon.</li> <li>Chwilio am safbwyntiau ar atebion.</li> <li>Datblygu gyda phwy y dylem weithio er mwyn cyflawni canlyniadau amgylcheddol.</li> </ul>
<b>Cynllun Rheoli Basn Afon Drafft wedi'i ddiweddarau</b> – Ymgynghoriad statudol	Ymgynghoriad Medi 22 <sup>ain</sup> 2014 i Fawrth 22 <sup>ain</sup> 2015  6 Mis o Hyd  Dyddiad cyhoeddi'r ddogfen ymatebion ym mis Mehefin 2015	<b>'A yw'r cynllun drafft yn amlinellu'r lefel gywir o uchelgais ar gyfer yr amgylchedd dŵr a'r ymrwymiad i gyflawni?'</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhagweld statws cyrff dŵr yn 2012 a 2027</li> <li>Amcanion cyrff dŵr drafft</li> <li>Mesurau cyflawni yn cynnwys perchnogaeth camau gweithredu lleol a strategol</li> <li>Sut yr ydym yn cyflawni ar raddfa leol (dalgyloedd).</li> </ul>
Cyhoeddi <b>Cynlluniau Rheoli Basn Afon</b> wedi'u diweddarau	Dyddiad cyhoeddi Rhagfyr 22 <sup>ain</sup> 2015	<b>'Bydd y cynllun yn ymdrin â'r materion'</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth fel cynlluniau statudol</li> <li>Mesurau wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar ddefnydd realistig o'r mesurau ac egwyddorion fforddiadwyedd</li> <li>Darparu fframwaith ar gyfer gwelliant amgylcheddol sylweddol hyd at 2021 a thuaug at 2027</li> </ul>

### 6.3 Rhestr o ymatebwyr

ENW	SECTOR	Ardal Basn Afon
Cymdeithas Chwaraeon Cymru	Hamdden	Cymru gyfan
Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru	Busnes a Diwydiant	Cymru gyfan
Parc Cenedlaethol Eryri	Cadwraeth a Hamdden	Cymru gyfan
Undeb Amaethwyr Cymru	Amaethyddiaeth	Cymru gyfan
Energy UK	Busnes a Diwydiant	Cymru gyfan
CEFAS	Pysgodfeydd	Cymru gyfan
Confor	Coedwigaeth	Cymru gyfan
Cyswllt Amgylchedd Cymru	Cadwraeth	Cymru gyfan
Canals and Rivers Trust	Mordwyo	Cymru gyfan
Coed Cadw	Coedwigaeth	Cymru gyfan
Partneriaeth Dŵr ac Iechyd	Diwydiant Dŵr	Cymru gyfan
Cymdeithas Atal Llifogydd	Rheoli Tir	Cymru gyfan
Ymddiriedolaeth Natur Cymru	Cadwraeth	Cymru gyfan
Grosvenor Caving Club	Hamdden	Dyfrdwy
Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol	Mordwyo	Dyfrdwy
Rossett & Gresford Fly fishing club	Pysgodfeydd	Dyfrdwy
Cyngor Defnyddwyr Cymru	Diwydiant Dŵr	Dyfrdwy
Dŵr Cymru Welsh Water	Diwydiant Dŵr	Dyfrdwy
Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru	Cadwraeth	Dyfrdwy
CBS Sir Ddinbych	Awdurdod Lleol	Dyfrdwy
Dŵr Dyffryn Dyfrdwy	Diwydiant Dŵr	Dyfrdwy
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru	Amaethyddiaeth	Dyfrdwy
Cyngor Tref Saltney	Awdurdod Lleol	Dyfrdwy
Bretton Farming Ltd	Rheoli Tir	Dyfrdwy
Canoe Camping Club	Hamdden	Dyfrdwy
Cyngor Gorllewin Sir Caer a Chaer	Awdurdod Lleol	Dyfrdwy
United Utilities	Diwydiant Dŵr	Dyfrdwy
Awdurdod Glo	Mwyngloddio	Dyfrdwy
Cymdeithas Genweiriol Llangollen/Maelor	Pysgodfeydd	Dyfrdwy
9 Ymateb gan Unigolion	Amrywio'n Eang	Dyfrdwy
Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru	Cadwraeth	Hafren
Sefydliad Gwy ac Wysg	Cadwraeth	Hafren
Envisager	Busnes a Diwydiant	Gorllewin Cymru
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Hamdden	Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Afonydd Teifi	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Diwydiant Dŵr	Gorllewin Cymru

ENW	SECTOR	Ardal Basn Afon
Murco	Busnes a Diwydiant	Gorllewin Cymru
Dŵr Cymru Welsh Water	Diwydiant Dŵr	Gorllewin Cymru
Afonydd Cymru	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru	Amaethyddiaeth	Gorllewin Cymru
National White Water Centre	Hamdden	Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Cadwch Gymru'n Daclus	Cadwraeth	Gorllewin Cymru
Cymdeithas Genweiriol Sir Benfro	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Awdurdod Glo	Mwyngloddio	Gorllewin Cymru
Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Clwb Genweiriol Dyffryn Afan	Pysgodfeydd	Gorllewin Cymru
Ecodyfi	Rheoli Tir	Gorllewin Cymru
Green Energy Partners	Busnes a Diwydiant	Gorllewin Cymru
Avon Outdoor Activities	Hamdden	Gorllewin Cymru
Aston University Canoe Club	Hamdden	Gorllewin Cymru
Harcombe Environmental Services	Busnes a Diwydiant	Gorllewin Cymru
Clwb Canŵio Aberystwyth	Hamdden	Gorllewin Cymru
Blue Paddle	Hamdden	Gorllewin Cymru
Ymgynghorydd Amgylcheddol	Busnes a Diwydiant	Gorllewin Cymru
41 Ymateb gan Unigolion	Amrywio'n Eang	Gorllewin Cymru



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8am - 6pm)

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd blaenorol Cyfoeth Naturiol Cymru.